# Cartrefi gofal yw'r targed â'r brys mwyaf ar gyfer ymestyn deddfwriaeth **staffio diogel**.




Gwyddom fod lefelau isel o ran staff nyrsio yn gysylltiedig â phob math o risgiau i gleifion.  Mae ymchwil wedi dangos fod wardiau sy'n gweithredu gyda lefelau isel o staff nyrsio yn gallu cynyddu cyfraddau marwolaeth o hyd at 26% o'u cymharu â wardiau gyda mwy o staff.[i]

Felly, efallai gall ymddangos fel syndod, hyd at ychydig flynyddoedd yn ôl, nad oedd unrhyw ddarparwr gofal yn y DU o dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i gynnal lefelau digonol o ran staff nyrsio.

Newidiodd pethau yng Nghymru pan ddaeth **Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016** i rym.  O dan **Adran 25B** o'r Ddeddf honno, mae gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ddyletswydd i gyfrifo a chadw lefelau staff nyrsio yn unol â methodoleg arbennig.

Ar hyn o bryd, ymdrin â rhai lleoliadau cleifion mewnol ar gyfer oedolion yn unig y mae Adran 25B.



Bydd wardiau cleifion mewnol ar gyfer plant yn cael eu cynnwys erbyn mis Hydref 2021.

Gwnaethom holi aelodau pa leoliad oedd y sector pwysicaf ar gyfer Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i ymestyn ato.

## Mae tros draean (37% o ymatebwyr) yn dweud mai **cartrefi gofal ddylai fod nesaf**.

Mae nyrsio mewn cartref gofal yn enghraifft o *nyrsio cymunedol*, term sy'n ymdrin â'r holl ofal nyrsio ar wahân i'r hyn a roddir mewn ysbyty. Mae dros un rhan o bump (230 g0 G[<00F5><0035><0057><0048>7<0055><0050 df1 08 drm(w)-4(n)-t( )5(o)-7baeolgof(y)-8(t)5()5(a).8

Er mwyn cadw ei nyrsys, mae **GIG Cymru** angen gweithlu mwy, sy'n cael ei dalu yn well.

Mewn arolwg RCN yn

## Er mwyn cadw nyrsys mewn **cartrefi gofal**, mae cyflog uwch yn bwysig, ond mae parch yr un mor bwysig hefyd.

Mae cadw pobl yn iach mewn cartref gofal yn llawer haws pan mae nyrs gofrestredig yno, ac eto mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi darganfod bod darparwyr gofal a gomisiynwyd yn cyflogi 1,545 o nyrsys cofrestredig yn unig drwy Gymru.

# Dylai hwyluso mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a gweithgareddau corfforol fod y prif flaenoriaethau **iechyd cyhoeddus** ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru.



Ni ellir osgoi bob salwch, ond drwy helpu pobl i fyw bywydau iachach, gallwn ni *leihau* salwch y gellir ei osgoi a mynd i'r ysbyty yn ddiangen.

Gwnaethom holi ein haelodau beth oedden nhw'n feddwl yr oedd angen i Lywodraeth nesaf Cymru ganolbwyntio arno er mwyn hyrwyddo iechyd cyhoeddus.

Roedd gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl wedi'i osod uchaf, ac roedd yn cael ei ddilyn gan weithgareddau corfforol – a oedd wedi'i osod yn uwch hyd yn oed nag ymdrin â chamdriniaeth alcohol a sylweddau.

Mae'r rhan fwyaf o bobl eisiau bod yn iach! Ond unigolion yw pobl.  Drwy hwyluso bawb i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo *eu* hiechyd – p'un a yw'n buddsoddi mewn cynllun beicio i'r gwaith, neu fynediad at doiledau cyhoeddus at wneud mannau gwyrdd yn hygyrch i bawb – gallwn ni gael cymdeithas sy'n iachach, hapusach a mwy cyfartal.

Credwn y dylai nyrsio fod wrth galon lleihau effaith salwch, hyrwyddo iechyd ynghyd â helpu pobl i weithredu yn y gwaith ac wrth chwarae.

Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru fuddsoddi mewn gwella mynediad at therapïau seicolegol, cynyddu'r niferoedd o fyfyrwyr nyrsio iechyd meddwl ynghyd â sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at gyfleoedd er mwyn gwella eu hiechyd meddwl a'u hiechyd corfforol.

